# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mai 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 8

## Siop Gymunedol Llandyrnog – Lansio'r Cynnig Cyfranddaliadau

**(Ar agor o 27 Ebrill hyd at 8 Mehefin)**
Nos Fercher Ebrill 27, daeth dros 70 o bobol o bentrefi Llandyrnog, Llanychan, Llanynys, Gellifor, Llangynhafal, Bodfari ac ymhellach i noson lansio 'Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol' yn Neuadd y pentref. Daethant ar wahoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr Prosiect Siop a Swyddfa Bost Cymunedol Llandyrnog – Siop Gymunedol Llandyrnog Cyf.

Wedi croesawu pawb i'r neuadd, diolchodd Emyr Morris, Cyfarwyddwr/ Ysgrifennydd y Cwmni, i bawb am eu cefnogaeth i'r digwyddiadau codi arian i'r Fenter hyd yma. Eglurodd sut i fynd ati i fod yn gyfranddaliwr er mwyn i'r gymuned gyfan brynu'r siop. Bu'r siop yn rhan annatod o'r pentref ers 1841 a dymuniad y cyfarwyddwyr yw gweld ei hadfer i fod yn hwb cymunedol ac yn galon y pentref unwaith eto.

Y nod yw codi isafswm o £30,000 ac uchafswm o £70,000 gan ein Cynllun Cyfranddaliadau Cymunedol. Isafswm buddsoddiad am un gyfran fydd £25 a **bydd y cyfranddaliadau'n cael eu cynnig o Ebrill 27 i Fehefin 8.**

Cafodd pawb a fynychodd y noson lyfryn defnyddiol sy'n egluro popeth yn fanwl, yn cynnwys Ffurflen Gais am Gyfranddaliadau Cymunedol hefyd.

Os am fwy o wybodaeth neu i gael ffurflen gais, gwnewch un o'r canlynol:

- ymweld â'r wefan – www.llandyrnogshop.com
- e-bostio eich cais gorffenedig i llandyrnogcommunityshop@btinternet.com
- postio eich ffurflen gais at Emyr Morris, Penisa'r Waen, Llandyrnog, Dinbych LL16 4HL.




*O'r chwith: Emyr Morris (cyfarwyddwr), Jackie Le Fevre (cyfarwyddwr), Viv Rosser (cyfarwyddwr), Gina Johnston (cyfarwyddwr) a Ivan Butler (cadeirydd annibynnol).*

**Mae Hugh and Veronica Roberts, Hyfrydle, yn hynod ddiolchgar i bawb a gefnogodd y bore coffe fore Sadwrn 22 Ebrill ac a gyfrannodd ato mewn unrhyw fodd. Maen nhw wrth eu boddau i gyhoeddi bod £1132 wedi'u codi i'r Uned Trin Canser, Ysbyty Glan Clwyd.**

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

***Dymuniadau gorau*** i Iona Salusbury sydd wedi symud i Dolwen yn ddiweddar.
***Swydd newydd*** Llongyfarchiadau i Glesni Edwards ar ei swydd newydd gyda RhAG (Rhien Dros Addysg Gymraeg), fel Swyddog Ymgysylltu a Hyrwyddo Gogledd Cymru!
***Llongyfarchiadau calonnog ...***
i Alisha Whitehead-Hughes, Y Rofft, aelod o dîm pêl-droed merched dan 16 Genod Henllan – Pencampwyr Cynghrair Pêl-droed Merched Gogledd Cymru. Alisa sydd wedi sgorio'r nifer fwyaf o goliau yn y Gynghrair a hi sgoriodd y gôl fuddugol y tîm yn rownd gyn-derfynol Cwpan y Gynghrair. Pob hwyl i'r tîm yn y ffeinal yng Nghaernarfon ar 13 Mai.
**...** i *Gwmni Peirianneg Sifil Jones Bros UK* (Rhuthun) ar ennill gwobr gyda chlod Y Gymdeithas Frenhinol Er Atal Damweiniau (*RoSPA*). Derbyniodd y cwmni y bymthegfed fedal aur yn olynol! Mae gwobrau diogelwch a lles yr *RoSPA* yn cael eu cydnabod fel y rhai mwyaf pwysig yn y maes yn fyd-eang.

**Dymuniadau da i** Steffan a Zoe Parry yn eu cartref, newydd Croeso – gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

***Rhybudd***
Yn dilyn lladrad golau dydd digywilydd yng nghanol y pentref yn ddiweddar, mae'r heddlu'n annog pawb i fod yn wyliadwrus a dilyn y canllawiau sydd i'w weld ar eu gwefan: ***https://www.heddlugogleddcymru.police.uk/cy-GB/cp/cyngor-atal-troseddau/Diogelu-eich-cartref-rhag-troseddau*.**

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

Brownies
1st Llandyrnog Brownies

Mae gan yr Uned le i ferched rhwng 7 a 10 oed yn eu cyfarfodydd bob nos Lun, 5.30 –7.00 yn Neuadd y Pentre. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Brown Owl, Mrs Karen Morris ar 01824 790690 neu anfonwch e-bost ati: gingerkaz64@gmail.com.

Mae Brownies Llandyrnog yn 60 oed eleni ac yn dymuno rhannu eu dathliadau â phawb. Oes gennych chi atgofion fod yn Brownie yn Llandyrnog? Os oes, cysylltwch â Mrs Karen Morris.




## Gwasanaethau mis Mai

### Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 7fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 14eg | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 21ain | 11.15 | Boreol weddi |
| 28ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

### Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 7fed | 9.45 | Parch. Ifor ap Gwilym |
| 14eg | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 21ain | 11.00 | Parch. Nan Powell Davies |
| 28ain | 10.00 | Oedfa’r Fro: Sulgwyn |

St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

**Bore coffi**
**Dydd Sadwrn, 27 Mai**
**Neuadd y Pentre, 10.00–11.30**
**Stondin gacennau a raffl**
**Cysylltwch â Bryn: 07585 170592**


**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks


# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 1af | Trefoil Guild 2pm<br>Cyfarfod Pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Mawrth | 2il | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7–9pm |
| Mercher | 10fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Mawrth | 16eg | Clwb Llyfrau 10am<br>Cyngor Cymuned 7pm |
| Mercher | 17eg | Tuesday Club 2pm |
| Llun | 22ain | Clwb Cwiltio 7pm |
| Iau | 25ain | Cyfarfod Pwyllgor yr Eglwys 7pm |
| Mawrth | 30ain | Clwb Llyfrau 10am |

*I logi’r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mercher | 10fed | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau, 7pm |
| Sadwrn | 13eg | Bore coffi – Cymorth Cristnogol, 10am–11.15 |
| Sul | 14eg | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 15fed | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mercher | 17eg | Y Gymdeithas Hanes 7pm (Pwyllgor 6.30pm) |
| Llun | 22ain | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Sadwrn | 27ain | Bore coffi – Hosbis St Cyndeyrn, 10am–11.15 |

*I logi Neuadd y Pentre, ffoniwch Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.*

cymorth cristnogol



christian aid

**BORE COFFI**

**DYDD SADWRN MAI 13eg**

Neuadd y Pentre, 10 o’r gloch

Croeso i bawb

# Bryn yn y BMW M3

Hwyrach y bydd hyn yn eich synnu, ond, wedi byw bywyd reit gysgodol yma yn Llandyrnog, dydw i erioed wedi bod mewn car heddlu. Dwi wedi eistedd yn fy nghar i sawl gwaith yn ateb cwestiynau ond erioed wedi gorfod mynd i gefn eu car nhw! Y tro diwetha' i mi gael fy stopio oedd ar yr A470 ar gyrion Llandudno – mynd adre o gyngerdd Max Boyce. Yn ôl pob golwg, roedd yr heddlu'n poeni am fy 'ngyrru igam-ogam' – cefais air o gyngor a dyna fo. A' i ddim i fanylu am y digwyddiad hwnnw, achos base Anwen wedi dweud wrtha i petai hi'n poeni am y dreifio. Roedd hi'n ddistaw iawn y noson honno – rhyfedd beth ma' rhywun yn ei gofio, am resymau gwahanol.

F'atgof cyntaf i o blismon yn Llandyrnog oedd y diweddar Arthur Jones yn patrolio'r lonydd ar ei fotobeic. Galla i glywed ei sŵn rŵan yn galw heibio hwn a hwn i gael llymed bach a ffag wrth gasglu ei wybodaeth ddiweddara' – yn union fel golygfa allan o *Heartbeat*. Dw i mor falch mod i wedi 'ngeni yn y cyfnod hwnnw – dyddie difyr!

Mae'n rhaid bod Lisa wedi digwydd clywed y sgwrs am f'awydd i gael reid mewn car heddlu a chael fflach o ysbrydoliaeth am be' i'w gael yn anrheg Dolig i'w thad. Dychmygwch fy syrpréis pan gefais i daleb – profiad bod mewn car heddlu sy'n atal goryrru – 'Profiad yr *Interceptor*'. Fy nghar a fy nillad heddlu fy hun a fy 'ww-wws' ar ffordd glir – wel, y trac rasio beth bynnag.

Be'n union mae'r 'Interceptors' 'ma yn ei wneud, meddech chi? Wel, rhain ydi'r ceir heddlu sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddara' i fynd ar ôl pobol sy'n dwyn ceir a rhai sy'n delio efo cyffurie – unrhyw un wir sy'n beryg i'r cyhoedd neu i unigolion arbennig. Mae ganddyn nhw'r ANPR – y teclyn nabod rhif ceir yn awtomatig – gallan nhw weld pwy sy' heb dalu'i yswiriant car, neu pwy sy'n cambihafio.

Wrth gwrs, rhaid i'r car fod yn gyflymach




nag unrhyw gar fydde gan ddeliwr cyffurie. Mae'r gyrwyr yn cael hyfforddiant reit ddwys er mwyn iddyn nhw fedru mynd fel fflamie ar ôl unrhyw ddrwgweithredwr.

Wel doedd y car yma'n ddim gwahanol – y BMW M3 (M3 ydi adran arbennig BMW sy'n paratoi ceir i safon eithriadol o uchel), bhp o 424 a chyflymdra uchaf o tua 155mya. Ond, yn ôl Terry, fy hyfforddwr, mae'r car yma wedi ei newid i 500bhp. Roedd o'n gar 6-gêr awtomatig, a dangosodd i mi sut i wthio lifer y gêr yn ara' deg at 'Drive' a llusgo fy hun at y giât, chwedl nhw – mynedfa'r trac.

Wedi edrych ym mhob drych, i ffwrdd â fi am y gornel gynta' – yn union fel roeddwn i wedi dychmygu, ond yn well. Llithrai'r injan yn ddidrafferth drwy'r gêrs er bod yr 'interceptor' yma wedi ymddeol o'r heddlu ers cryn amser. Doedd dim rhaid gweiddi i gael sgwrs efo'r hyfforddwr. Eglurodd bob rhan o'r trac – lle i godi sbîd, llefydd i roi'r brêc, ac, ar ôl medru delio â thro bach i'r dde go anodd ar ael y bryn, roedd 'na gyfle i fynd amdani( gyda chaniatâd Terry wrth gwrs, oedd yn ffyddiog y gallwn i wneud hyn). Choeliech chi ddim fel y cododd sbîd y car o 70mya i 120mya mewn eiliade, a finne'n eistedd yn ôl yn y sêt – yn hollol gyfreithiol! Dyna i chi beth oedd gwerth am arian.

Gallech chi ddadle nad oes pwynt gwneud

car i fynd mor gyflym, gan na allwch chi ddreifio mwy na 60 neu 70 mya ar draffordd beth bynnag. Wrth wneud 70mya, dim ond ychydig o dan 2000 ydi ei gylchdroadau'r funud – yr rpm. Felly, gan mai dim ond yn tician drosodd mae injan arferol, mi ddyle hi bara am byth.

Mi fuodd gen i Hyundai 1000cc unwaith i fynd i lefydd agos o gwmpas y lle, ond mi benderfynes i fynd â fo unwaith ar yr A55. Roedd 'na sŵn fel sŵn peiriant gwnïo, ac Anwen, sydd bob amser mor feddylgar, yn f'atgoffa mod i wedi rhedeg allan o gêrs! Mae gan y BMW chwareus yma chwe gêr, ond fydde' 'ne ddim rhaid defnyddio'r ddau gêr olaf byth ar y ffordd!


Roeddwn i'n teimlo wrth rasio o gylch y trac yma yn Two Sisters, Wigan, 'mod i fel Moses gynt, a'r môr yn agor o'i flaen. Am ryw reswm, pan oedd gyrwyr eraill ar 'brofiadau' gwahanol yn edrych yn y drych ôl ac yn gweld car heddlu yn fflachio wrth ddal i fyny â nhw, bydden nhw'n tynnu i'r ochor. Doedd dim rhaid i mi drio pasio neb – roedd y bylchau yno – profiad gwych.

Mi orffennes i'r laps i gyd, ac, i ddweud y gwir roedd o'n brofiad ymlaciol – es oddi yno'n teimlo'n sionc fel wiwer. Roedd yn wahanol i yrru Jag Teip-E o gwmpas y trac – reit bleserus, ond doedd ganddo ddim llyw â phŵer, dim bocs gêrs awtomatig, dim brêc atal sgid, ac injan 6-silindr anferth 3.8 litr yn rhuo bron yn eich côl. Roedd y llyw'r un maint ag olwyn trol. Roeddwn i'n drewi o betrol, a 'mreichiau bron â disgyn, yn fyddar am 'chydig ac wedi ymlâdd yn llwyr. Dw i'n codi'n het i'r bobol 'ma sy'n rasio ceir, ond rhowch gar modern i mi bob tro.

Fydden i'n prynu BMW M3 ar gyfer y ffordd? Rhy ddrud i mi – dim ond breuddwyd! Ond wedi dweud hynny, mi weles i Fiat 500 (trydan) ar werth mewn garej barchus yn Nimbech, ac roedd hwnnw'n £23,000 hyd yn oed. Fase rhaid cael dau ohonyn nhw beth bynnag – un i bob troed!

*Bryn Davies*

# Cofiwn



Os edrychwch chi'n ofalus, fe welwch chi diwlipau piws a gwyn, *Flaming Flag,* yn tyfu ar ymyl y ffordd wrth drofa Speddyd. Cafodd y rhain eu plannu ar gylchfan Llandyrnog flwyddyn y pandemig yn 2020, ac yna eu trawsblannu i'r fan yma'r un flwyddyn wedi iddynt wywo.

Felly bob Gwanwyn, pan fyddwch chi'n eu gweld wrth basio, cymerwch ddau funud i fyfyrio a chofio am y cyfnod anodd hwnnw – ond yn bwysicach fyth, i gofio am anwyliaid a gollwyd yn ystod dwy flynedd gyntaf Cofid.

**Prompt Travel**
**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**
**Tacsi a Hurio Preifat**

# Sioe Flodau Llandyrnog 2023

Bydd trefnwyr y Sioe Flodau yn croesawu unrhyw gynigion am help eleni gyda'r sioe a fydd yn digwydd yn Neuadd y Pentre, ddydd Llun 28 Awst. Mae'r paratoadau'n cynnwys dosbarthu rhaglenni drwy'r pentref, sicrhau hysbysebwyr a noddwyr, helpu ar y diwrnod, a chyflwyno unrhyw syniadau tuag at lwyddiant y digwyddiad. Fel arfer, golyga hyn gyfarfod fel grŵp am tua awr, bedair gwaith rhwng rŵan a mis Awst. Os hoffech chi wirfoddoli, anfonwch e-bost at yr Ysgrifennydd i'r cyfeiriad isod os gwelwch yn dda. Y llynedd, ni ofynnodd y sioe am noddwyr tuag at y dosbarthiadau unigol, er mwyn osgoi cyswllt agos rhwng unigolion oherwydd sefyllfa ansicr Cofid. Rydym ni'n ailgyflwyno'r nawdd eleni gan fod rhai pobl wedi gofyn am hyn. Y gost ydi £6 y dosbarth – bydd hyn yn talu am wobrwyon y cystadlaethau. Bydd enw'r noddwr gyferbyn â'r gystadleuaeth i'w weld yn rhaglen y sioe. Os hoffech chi noddi, e-bostiwch yr Ysgrifennydd os gwelwch yn dda. Gallwn dderbyn arian, neu daliad drwy'r banc.

Eleni, byddwn ni eto'n hurio pabell fawr yn ogystal â defnyddio'r Neuadd. Mae'r gofod ychwanegol yn ein galluogi i groesawu sefydliadau neu weithgareddau eraill i'r sioe. Os ydych chi'n aelod o glwb neu sefydliad fyddai'n hoffi gofod yn y sioe, neu os oes gennych chi syniad am weithgaredd i'w gynnal ar y cyd â'r sioe, e-bostiwch yr Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.

***Roger Warner, Ysgrifennydd***
llandyrnogshow@gmail.com

**Dyma'r dosbarthiadau yng nghystadlaethau ffotograffiaeth y sioe:**

* **Nos**
* **Llinellau**
* **Bywyd yn Nyffryn Clwyd**
* **Dull teithio**

# Ysgol Bryn Clwyd

Cafodd y plant ymweliad gan yr artist Catrin Williams yn ddiweddar. Bu'n gweithio efo'r ddau ddosbarth yn creu peintiadau a dyluniadau o nodau tir lleol. Cafodd y plant gyfle hefyd i ymarfer eu Cymraeg yn ystod y sesiynau.





**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Atgofion am Gapel y Bedyddwyr



*Llun o* Trem yn Ôl*, cyhoeddwyd gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog & Llangwyfan.*

Mae tua 85 mlynedd ers i lun o Buddug Foulkes (Owen gynt), ei chwaer Glenys, ei mam Lillian, ac aelodau Capel y Bedyddwyr, gael ei dynnu o flaen y capel, ar ffordd Llanrhaeadr.

Cyn adeiladu'r Capel ei hun, roedd pregethwyr y Bedyddwyr yn dod o Ruthun ar eu tro i bregethu. Roedd yna gryn wrthwynebiad o du'r eglwys yn y pentre e.e. yn 1816, cawn hanes y Parch John Edwards, gweinidog Bedyddwyr Rhuthun wrthi'n mynd i hwyl ryw fore Sul yn ei bregeth o flaen tŷ John Davies, oedd yn ymyl giât yr Eglwys. Gwylltiodd y Rheithor yn gacwn, a gorfodi'r clochydd druan i ganu clychau'r Eglwys i foddi geiriau doeth y pregethwr!

Am gyfnod byr wedyn, llogwyd ystafell gyfarfod yn y Golden Lion am £2 y flwyddyn! Pwy fase'n meddwl am y fath beth heddiw?

Buont yn cyfarfod wedyn mewn sawl cartref yn yr ardal – y Felin, a'r Odyn Frag, Pentrefelin, a Threfechan (ger Llanynys) lle ffurfiwyd 'Eglwys' fel cangen o Ruthun. Yn y diwedd, cafwyd tir gan John Maddocks, Glanywern, i adeiladu Capel ar groesffordd y Felin. Agorwyd y Capel yn 1836, a dau dŷ ynghlwm wrth y Capel, cyn ffurfio un tŷ'n ddiweddarach. Roedd aelodau'n dod o bell ac agos i'r capel bach am flynyddoedd lawer. Daeth yr enwog Parch. Lewis Valentine atynt i ddathlu'r canfed pen-blwydd, a the i bawb yn y festri wedyn. Ond yn raddol, fel roedd yr aelodau'n heneiddio neu symud i ffwrdd i fyw, roedd nifer yr aelodau'n disgyn a bu'n rhaid dod â'r achos i ben a gwerthwyd y capel yn 1977. Heddiw mae'n dŷ cysurus, yn llawn cerddoriaeth!

***Atgofion Buddug***

Bu fy nheulu'n byw yn 1 Bron Dyffryn Terrace am flynyddoedd. Taid a Nain i ddechrau, wedyn fy rhieni, a fi a'm chwiorydd, Glenys a Valmai'n ddiweddarach. Roeddem fel teulu'n aelodau ffyddlon o Gapel y Bedyddwyr ac mae 'nhaid a nain wedi eu claddu yn y fynwent. Yn ein tŷ ni roedd y pregethwyr gwadd yn cael te ar y Sul a Mam wedi paratoi'n helaeth ar eu cyfer. Yn ôl trefn y Bedyddwyr, roedd yn ofynnol i bob unigolyn gael ei fedyddio trwy drochiad, cyn dod yn aelodau llawn o'r capel – dim bedyddio pan oedden nhw'n fabis bach. Pan oeddwn i'n 16 oed cefais fy medyddio yn y Fedyddfa wrth y Sêt Fawr gan y Parch John Jones (*tad Ieuan Wyn Jones cyn-aelod Cynulliad*). Defnyddid y dŵr i'r bedyddiadau o'r afon a gyflenwai llyn y Felin ger y capel. Fel arfer, nifer fechan o aelodau oedd yn mynd i'r capel ar y Sul, ond roedd y capel dan ei sang i'r gwasanaeth bedyddio hwnnw – roedd pobl y pentre wedi tyrru yno i'm gweld i'n cael fy medyddio yn fy nillad gwyn! Pan symudais i fyw o'r pentre, collais gysylltiad â'r Capel, ac yn fuan iawn wedyn, roedd y drysau wedi eu cau.



*Buddug yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ychydig flynyddoedd yn ôl*



# Hanesion Hazel

Mae'n rhaid dweud bod cadw anifeiliaid yn rhoi profiadau amrywiol i ni – maen nhw'n gwmni mawr ac yn dod â hapusrwydd yn ogystal â phoen meddwl. Fe'm hatgoffwyd cymaint mae pobl y Deyrnas Unedig yn caru eu cŵn pan fu farw Paul O'Grady, oedd wedi ymgyrchu am flynyddoedd ar ran Cartref Cŵn Battersea. Mae anifeiliaid anwes yn rhan o fywydau llawer ohonon ni, yn rhan annatod o'r teulu.

Cefais fy magu yng nghanol cŵn, gan fod fy mam yn bridio Cŵn Defaid Shetland – *Shelties* – am flynyddoedd – cŵn bach, deallus dros ben. Pan symudon ni i Formby, a 'nhad yn gweithio dramor, penderfynodd fy mam fod ganddi angen mwy o gi 'gwarchod'. Roedden ni'n byw mewn hen reithordy o fewn tafliad carreg i'r traeth, ac yn aml bydde pobl yn rhoi cnoc ar y drws, fel arfer yn hwyr yn y nos, oherwydd rhyw argyfwng!

Dyna i chi'r ddau gariad oedd â syniad rhamantaidd o barcio ar y traeth i weld yr haul yn machlud – heb ddallt bod y llanw'n dod i mewn yn gyflym iawn! Roedd rhaid i'r ddau ei heglu hi, a gadael y car smart roedd y bachgen wedi ei fenthyg gan ei dad i greu argraff ar y ferch. Edrychodd y ddau yn syn ar y car yn cael ei lyncu gan y môr mawr! Yn aml, byddai pobl yn dod ar ôl brifo eu traed ar ddarnau o wydr a sbwriel ar lan y môr – doedd y traethau yn y 70au ddim mor lân â heddiw. Ambell waith deuai rhieni'n edrych am eu plant oedd ar goll – a bu ambell nain a thaid ar goll!


Felly, prynodd mam gi gwarchod 'cas' yr olwg, sef cyfeirgi blewyn byr Almaenig (*German shorthaired pointer*). Ci ffyddlon ac annwyl, oedd yn cyfarth pan oedd angen hefyd. Cafodd dorllwyth o 13 ci bach (fel arfer, dim ond 2 neu 3 mae Shelties yn eu cael). Roedd fy mam wedi blino'n lân yn rhedeg ar ôl y cŵn bach 'ma, oedd yn mynnu rasio tuag at y traeth. Bu'r postman yn postio cŵn bach yn lle llythyre am sbel!

Mae'r cyfeirgi bob tro'n gyfeillgar a ffyddlon, ac wrth eich traed bob amser, ond beth sy'n ei wneud mor annwyl i mi ydi gweld fy un i'n swatio'n ddiog o flaen tanllwyth o dân. Mae'r 'hen wraig' yn 14 oed erbyn hyn ac yn dioddef o'r gwynegon ers ei geni.

Awgrymodd y milfeddyg y dylwn i drio *Librela* – cyffur lladd poen newydd sbon sy'n targedu tyfiant y nerfau ac yn atal y signalau poen rhag cyrraedd yr ymennydd. Er braidd yn bryderus, mi es amdani ac mae'r 'hen wraig' wedi bywiogi drwyddi ac yn llawn drygioni. Lle cynt bydde hi wedi meddwl – 'biti na faswn i'n gallu neidio am y bwyd yne', wel rŵan, mae'n neidio amdano'n syth, a'i lyncu. Dyna'i chenhadaeth hi mewn bywyd, (fel pob cyfeirgi arall) – cythru am fwyd, a hyd yn oed dwyn te Bob ac ambell i foronen! Mae'r 'hen wraig' yn benderfynol o wneud y gorau o'i hamser wedi blynyddoedd llwm.

Mor braf fyddai cael cyffur tebyg i anifeiliaid eraill neu hyd yn oed i bobol. Ryden ni'n byw mewn oes gyffrous iawn. Pan gafodd hi ddiagnosis 14 mlynedd yn ôl, doedd technoleg fel hyn ddim wedi ei ddatblygu. Mi fydd hi'n ddiddorol gweld be' ddaw i ni yn ystod y pedair blynedd ar ddeg nesa 'ma.

Hazel



*'Yr hen wraig' yn hynod ddeallus!*


**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Rysáit

***Bara Banana***

**Cynhwysion**

8owns /250g siwgwr (unrhyw fath, ond siwgwr brown meddal fydda i'n dewis)
4owns /125g menyn neu fargarîn wedi meddalu
2 wy
3 llwy fwrdd llefrith
1 llwy de soda pobi
8owns/ 250g blawd codi
2–3 banana aeddfed iawn
1 llwy de rhin fanila

**Dull**

Cynheswch y ffwrn/y popty (â ffan) ymlaen llaw i 160 $^{o}$C.
Mewn powlen, hufennwch y menyn/margarîn gyda'r siwgwr a rhin fanila.
Curwch yr wyau, un ar y tro.
Hidlwch y blawd a'r soda pobi a'i gymysgu.
Stwnsiwch y bananas yn ddarnau mân, a'u hychwanegu gyda'r llefrith i'r bowlen a chymysgu.
Gosodwch bapur pobi mewn tun bara 2 bwys neu gas papur tun bara.
Rhowch y cymysgedd yn y tun, a phobi am tua 1 awr, neu nes bod top y gacen yn bownsio'n ôl wrth ei wasgu a bod pren coctel/sgiwer yn dod allan yn lân. Dylai fod yn lliw brown euraidd.
Gadewch y bara banana i oeri yn y tun ar rac.

***DS*** Os nad oes gennych chi bapur pobi, irwch y tun yn dda, ac yna pan mae'r bara banana'n dod allan o'r ffwrn, trowch o a'i ben i waered a'i roi ar y rac oeri – bydd y stêm yn help i ryddhau'r gacen o'r tun.

*Rhian Jones*

# Tuesday Club

Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Ebrill oedd Jane Ford, rheolwr meddygfa Lôn Ganol, Dinbych. Daeth i fyw i Landyrnog o Gilgwri bedair blynedd yn ôl, ac mae wrth ei bodd yn byw yma.

Esboniodd Jane fod gwaith meddygon teulu yn eang iawn. Mae Meddygfa Lôn Ganol yn un brysur a llwyddiannus ac yn cynnig gwasanaeth fferyllfa hefyd.

Soniodd am yr anawsterau dybryd sy'n wynebu meddygfeydd, a'r anhawster i ddenu meddygon newydd. Mae'r rhai ifanc yn cael eu denu i weithio yn Awstralia a Seland Newydd lle mae'r amodau'n gymaint gwell. Strategaeth addysg, recriwtio a chadw staff yw'r ffordd ymlaen i wella'r sefyllfa, sydd yn sicr o waethygu cyn gwella.

Er gwaetha'r holl hanesion gwael am wasanaeth meddygfeydd, mae'r straeon da yn fwy niferus o lawer ac mae cleifion yn gwerthfawrogi eu meddygon teulu a'r GIG yn fawr iawn.

Diolchwyd i Jane am ei chyflwyniad a chafodd pawb baned a sgwrs. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 17 Mai.

# Trefoil Guild

Rydym ni wedi mwynhau'r ddau gyfarfod diwethaf. I ddathlu Gŵyl Ddewi daeth disgyblion Ysgol Bryn Clwyd i'n diddanu, ac yna buon ni'n mwynhau cacennau cri cartref.

Yn y cyfarfod i ddilyn, cawsom sgwrs gan Mrs. Turner – 'Teithiau bag llaw o Gaerdydd i Awstralia' – a lluniau o'r holl daith hefyd. Ym mis Mai bydd te parti'r coroni gyda miwsig, coronau, baneri a rhubanau.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Nawdd gan Bryn

Roedd Tîm Pêl-droed Llandyrnog Cynghrair yr Haf yn falch o glywed bod Bryn Williams y Sieff yn noddi crysau'r tîm am y tair blynedd nesa'. Cyflwynwyd y crysau gan Bryn mewn gêm gyfeillgar yn Rhewl. Diolch i Bryn am ei haelioni, a phob dymuniad da i'r tîm yn eu crysau smart! Mae'r cit wedi ei seilio ar batrwm crys yr Iseldiroedd pan oedden nhw'n chwarae oddi cartref yn 1988 – efallai y gallwn ni werthu replicas o'r crys yn y dyfodol agos!

Fel gwerthfawrogiad o wasanaeth Ethan Plumb a'i gefnogaeth i Jimmy a'r ddau dîm ar hyd y blynyddoedd, cyflwynodd Bryn y cit llawn iddo – rwyt ti'n ei haeddu fo Ethan!






Byddwn ni'n gwerthu cynnyrch Cegin Bryn yn ein gemau cartref – yr unig le yn y pentref lle medrwch chi brynu mêl gwenyn Llandyrnog!




*Bryn Williams yn cyflwyno crys i Jimmy McNally, rheolwr; is-gadeirydd y clwb Russ Jones, a'r llywydd, Mally Hughes.*

# Gŵyl Banc, Gŵyl Banc...

Meddyliwch wir – am y tro cyntaf ers cyn cof, mae 'na dair Gŵyl Banc ym mis Mai – Gŵyl y Banc Cynnar, Gŵyl Banc y Gwanwyn, ac wrth gwrs, oherwydd y coroni, mae Mai 8fed wedi ei ychwanegu fel Gŵyl Banc eleni.

Penderfynwyd mor bell yn ôl â 1871 bod angen 4 diwrnod o wyliau ar bawb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar wahân i ddiwrnod 'Dolig a dydd Gwener y Groglith, a daeth Dydd Llun y Pasg, y dydd Llun cyntaf yn Awst, Rhagfyr 26 a'r Llungwyn yn wyliau cyhoeddus i bron bawb. Dyna chwe Gŵyl Banc!

Mae'r diolch am y Ddeddf yn 1871 i'w roi i'r Aelod Seneddol dros Maidstone, sef Syr John Lubbock. Roedd o'n wyddonydd, ac mae sôn ei fod wedi astudio tipyn ar forgrug, a thrio dysgu ei bwdl i ddarllen! Roedd o'n fanciwr o fri hefyd – dim rhyfedd felly iddo alw'r 4 diwrnod yn Wyliau Banc! Ar y pryd, roedd gan bobol oedd mor falch o gael seibiant o'r slafio caled bob dydd, eu henw eu hunain ar bob diwrnod gŵyl – *Gŵyl Sant Lubbock*!

Wedyn, mewn 100 mlynedd – yn 1971, penderfynwyd ychwanegu un diwrnod arall, sef Ionawr 1af, – dyna 7 Gŵyl Banc! Yna, yn 1978, diwrnod arall eto – sef y Llun 1af ym Mai. Dyna i chi 8 Gŵyl Banc i gyd yng Nghymru a Lloegr, os nad oes dathlu mileniwm newydd neu ddigwyddiad brenhinol!

Mae 'na 9 diwrnod yn yr Alban – un diwrnod ychwanegol i'w nawddsant Andreas ym mis Tachwedd, ac mae Gogledd Iwerddon yn cael 10 – un i Ddydd Gŵyl Sant Padrig, ac un i gofio am Frwydr Boyne ar Orffennaf 12fed. Mae'r holl ddiwrnodau'n swnio'n hael iawn nes i chi glywed faint o ddyddiau Gŵyl mae gwledydd eraill yn eu cael: yr Eidal – 12, Gwlad yr Iâ – 16, Yr Aifft – 22. Ond Nepal ydi'r lle i fyw – mi gewch chi 35 Gŵyl Banc mewn blwyddyn yno!

Er yr holl ymdrechion ar hyd y blynyddoedd, mae'n drist meddwl na allwn ni yma yng Nghymru gael un diwrnod bach swyddogol i ddathlu ein Nawddsant Dewi Sant!

*Ann Jones Evans*

# Neges y Pasg oddi wrth yr Offeiriad Martin Pritchard

Bydd rhai pobl sy'n darllen y teitl hwn yn meddwl mai camgymeriad ydi o, am ei fod yn dweud Neges y Pasg fel mis diwethaf. Mewn gwirionedd, yng nghalendr y Cristion, ar wahân i'r Pentecost ar Sul olaf, mae mis Mai ar ei hyd yn dal i fod yn dymor y Pasg. Amser i ddathlu wrth i ni ryfeddu o'r newydd am wirioneddau'r Iesu, ei farwolaeth ar y groes yn herio marwolaeth ei hun, ac yna'r ffordd yr oedd yn ymddangos mewn gwahanol ffyrdd i'w ddilynwyr. Ac er eu bod nhw'n ei adnabod yn dda, doedden nhw'n aml ddim yn sylweddoli mai Iesu oedd o bob amser. Ym mha ffordd ydych chi'n adnabod yr Iesu yn eich bywyd? Pam na gymerwch chi ychydig o amser weithiau i feddwl am y cwestiwn hwn?

Ar bnawn y Pentecost, fel Ardal Genhadu Dinbych, byddwn yn dathlu Gwasanaeth Derbyn/Conffyrmasiwn Cari-Ann ac Erin yng Nghadeirlan Llanelwy. Os ydi bedydd neu gonffyrmasiwn yn rhywbeth rydych chi neu rywun arall yn ystyried, dewch i gysylltiad. Bob amser gyda chonffyrmasiwn, (a bedydd hefyd trwy gais), ceir cyfnod o ddysgu'n gyntaf bod rhaid i unigolyn gydnabod gwahoddiad Crist i'w ddilyn yn bersonol. Nid yw'n rhywbeth y gall rhywun arall wneud drosom ni – mae pobl yno i'n helpu, ond mae'r penderfyniad i'w ddilyn yn dibynnu'n hollol arnom ni i ymgymryd â bywyd o dyfu'n agosach at Dduw. Mae Duw, trwy'r Ysbryd Glân, yn gweithio gyda ni drwy gydol ein hoes, ac yn ein galw'n dyner. Ein cyfrifoldeb ni ydi cydnabod hyn a'n hewyllys rhydd i ymateb.



Yn y cylchgrawn mis diwethaf, soniais am fywyd newydd y Pasg. Cawsom ni wasanaeth bendithiol iawn ar doriad gwawr wrth Gastell Dinbych ar fore'r Pasg – ac rydyn ni wedi bod yn lwcus iawn gyda'r tywydd y ddwy flynedd diwethaf. Soniais hefyd am y daith i Jerwsalem, i geisio'r math newydd o fywyd a brofais pan oeddwn i yno gyda grŵp o bererinion yn Ionawr 2017. Digwyddodd y tro hwn hefyd yn ystod yr wythnos encilio, ac wrth ddal i brosesu'r profiad yn ddyddiol wrth wasanaethu Duw, mae'n wir yn ffordd newydd, dyfnach, a mwy cyfannol o adnabod natur Duw ac yn esblygiad cyfoethog yn ein cydberthynas.

Gweddïaf dros eich perthynas â Duw a'ch bod yn dod i'w adnabod o'r newydd y mis Mai hwn. Bendith Duw fo arnoch chi gyd!

# Sefydliad y Merched

Daeth Sharon Newell a Glynis Lloyd Wallis atom i gyfarfod 4 Ebrill yn yr Ystafelloedd Coco, i sôn am Hosbis Sant Cyndeyrn. Siaradodd Sharon, fel trefnydd gwirfoddolwyr, am yr amrediad o gyfleoedd sydd ar gael i wirfoddolwyr a faint o arian sydd angen ei godi yn wythnosol tuag at gadw'r Hosbis. Rhoddodd amlinelliad o'r datblygiadau diweddaraf ar y safle sy'n edrych mor groesawgar i bawb, a pha mor llwyddiannus ydi Caffi Cariad. Siaradodd Glynis am y sesiynau celf mae hi'n eu cyflwyno i gleifion a gofalwyr. Cafwyd cyflwyniadau diddorol dros ben, a gwahoddwyd aelodau'r mudiad i ymweld â'r safle a chael taith dywysedig o amgylch yr Hosbis.

Cyfeiriad e-bost Sharon os oes unrhyw un â diddordeb mewn gwirfoddoli ydi: s.parry@stkentigernshospice.org.uk.



# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

**Herbert Lewis – Y dyn tu ôl i'r gwleidydd**
Mr Paul Broadbent oedd y siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Mis Mawrth. Mae'n byw ym Mhlas Penucha Caerwys, ac yn briod a gorwyres Syr Herbert Lewis.

Ganwyd Syr Herbert Lewis (1858–1933) yng Nghei Mostyn, Sir Fflint. Aeth i Ysgol Ffynnongroyw, ac yna i'r Ysgol Ramadeg yn Ninbych. Gan ei fod yn dioddef o Asthma, anfonwyd ef wedyn ar un o longau ei dad i gael addysg ym Mhrifysgol Montreal. Yna ymlaen wedyn i Brifysgol Caerwysg, Rhydychen yn 1879. Erbyn iddo droi'n chwech ar hugain oed, roedd o wedi cael cyfle i deithio'r byd, a dechreuodd ei yrfa fel cyfreithiwr yn Lerpwl.

Bu'n AS am 30 mlynedd ac yn gefnogwr brwd i bopeth Cymreig – Cymru Fydd, Anghydffurfiaeth a'r Gymraeg. Ef oedd un o sefydlwyr yr Amgueddfa a'r Llyfrgell Genedlaethol. Bu'n gymorth i ddatblygu Prifysgol Cymru, cael grantiau i gyn-filwyr ac, ym myd addysg, hawlio addysg am ddim a chael y Ddeddf Addysg drwy Dŷ'r Cyffredin.

Roedd ei fam Catherine yn wreiddiol o Blas Llangwyfan, a phan gafodd y plasty ei ddymchwel yn 1915, gofynnodd Syr Herbert am gael mynd â'r paneli derw wensgot o'r parlwr ffrynt i Blas Penucha, Caerwys, ac yno maen nhw hyd heddiw.

Priododd Herbert ei gyfnither Adelaide, o deulu dylanwadol Gwasg Hughes a'i Fab, Wrecsam. Yn anffodus, bu farw Adelaide yn 1895. Yn 1897, priododd Herbert â Ruth Caine, oedd yn wreiddiol o Ynys Manaw. Mi ddysgodd Gymraeg a dechrau teithio Cymru'n casglu, recordio a chyhoeddi alawon gwerin Cymraeg. Hi sefydlodd Cymdeithas Alawon Cymru, ac mae'r wobr am y gân werin orau dros 21 oed yn y Genedlaethol er cof am waith diflino Ruth Herbert Lewis.

Rhoddodd Syr Herbert arian ar gyfer edrych am lecyn addas i Sanatoriwm Coffa'r Brenin Edward Vll yn Llangwyfan, a bu'n gefnogol iawn i'r fenter.

Yn 1925, cafodd ddamwain fawr wrth gerdded y bryniau uwchben y Llyfrgell Genedlaethol, a bu orweddiog am 8 mlynedd olaf ei fywyd ym Mhlas Penucha. Bu farw yn 1933, a chafodd ei gladdu yn Afonwen.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd gan Julia Hughes, Cadeirydd y Gymdeithas a diolchwyd gan Rona Aldrich.



*Paul Broadbent a Julia Hughes*

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher Mai 17, am 7.30, a Mrs. Elizabeth Benson fydd yn rhoi sgwrs am 'Grefftau Dyddiol ein Cyndeidiau' a bydd hi'n arddangos sut i nyddu, gwehyddu a gwneud basgedi.



## Llan Llanast



Cynhaliwyd Llan Llanast mis Ebrill ar Sul y Blodau. Clywsom ni unwaith eto stori'r Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem ar gefn ebol asyn, gyda'r bobl ar ochr y ffordd yn chwifio canghennau palmwydd. Gwnaethom ni ganghennau palmwydd a choed palmwydd allan o ffrwythau, ac yna eu mwynhau ar ôl y pryd bwyd. Gwnaethom ni groesau wedi eu gorchuddio â secwins – roedd yr oedolion yn cael mymryn o drafferth gwneud y rhain!



Wrth edrych 'mlaen at y Pasg buom yn gwneud basgedi Pasg i ddal yr wyau Pasg ddaethon ni o hyd iddyn nhw yn helfa wyau Pasg. Bydd ein sesiwn nesaf 14 Mai am 3.30pm yn y Neuadd. Cofiwch chi blant i ddod ag oedolyn gyda chi i rannu'r rhialtwch!

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned

**Arwyn Evans**

Cefais fy ngeni a'm magu ym mhlwyf Llandyrnog, hanner ffordd rhwng y pentre a Llangwyfan. Mynychais Ysgol Gynradd Gymraeg yr ardal ac yna Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

Erbyn hyn rydw i wedi byw yn Llandyrnog am gyfanswm o ddeugain mlynedd yn ogystal â 12 mlynedd yn Rhuthun fel pâr ifanc newydd briodi. Mae ein tri phlentyn wedi eu geni a'u magu yn yr ardal, ac yn dilyn traddodiad y teulu – fel fy nhad a 'nhaid cyn hynny!

Rydw i wedi bod yn gweithio ym maes adeiladu ar hyd fy mywyd, ac wedi bod yn rhan o dimau cynllunio ar gyfer ysgolion, canolfannau chwaraeon, prosiectau gwella'r amgylchedd, prosiectau gofal ychwanegol, cartrefi henoed, adnewyddu tai, adeiladu tai newydd, ac ar hyn o bryd rydw i'n gweithio yn y sector dai.

Awgrymodd un aelod doeth a hŷn o'r teulu y dylwn wneud cais am un o'r seddi gwag ar y Cyngor Cymuned (yn 2017), a fyddai yn ei dro'n caniatáu i mi fod ynghlwm â holl faterion o fewn y gymuned, a mynegi barn deg a gonest fel cynrychiolydd y plwyf.

Rydw i wedi cynrychioli tîm pêl-droed Llandyrnog United (cynghrair y gaeaf) a thîm Cynghrair yr Haf dros y blynyddoedd. Nawr, rydw i'n gefnogwr brwd pan mae amser yn caniatáu. Mae gen i ddiddordeb mawr mewn chwaraeon, ac yn mwynhau cerdded ar hyd ein lonydd a llwybrau gwledig, ac ar dro, mynd i Ben y Cloddiau ac edmygu'r golygfeydd godidog ein hardal leol.

***Cynghorydd Cymuned***

Mae un sedd yn dal heb ei llenwi ar y Cyngor. Ydych chi'n credu mewn cefnogi eich cymuned a rhannu eich arbenigedd efo deg cynghorydd arall? Os felly, cysylltwch â Bryn Davies, Clerc y Cyngor: rbrynd1@gmail.com.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Mynegwyd pryder gwirioneddol am ddiogelwch plant sydd yn chwarae ar y ffordd o flaen Cae Nant yn hytrach nag ar y cae ei hun. Penderfynwyd holi Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (*PCSO*) ynglŷn â chael gair tawel efo'r plant neu eu rhieni wrth fynd ar ei batrôl ar droed, a gweld hefyd os fyddai'n bosib i Swyddog Diogelwch Ffordd fynd i'r ysgol a rhoi rhybudd mewn da bryd i'r disgyblion.
- Roedd yn siomedig deall bod Archwilydd Cymru, er ei fod wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ers Mehefin 2022 a gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdano yn Ionawr 2023, wedi ymateb gan ddweud nad oedd mwyafrif adroddiadau'r cynghorau cymunedol wedi cael sylw eto oherwydd blaenoriaethau eraill.
- Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at y Brownis i gydnabod y gwaith ardderchog maen nhw'n ei gyflawni.
- Cytunwyd i roi £400 tuag at Gronfa Cynnal a Chadw'r Fynwent – bydd hyn yn caniatáu cynnal a chadw'r offer a phrynu tanwydd. Mae'r gymuned yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith da sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr i gadw'r fynwent yn daclus.
- Er gwaetha'r cais a wnaed i Gyngor Sir Ddinbych, ni osodwyd offer monitro cyflymdra ar y ffordd rhwng Waen a Brynllys fyddai, yn y pen draw, yn cyfiawnhau gosod mwy o arwyddion ayyb.
- Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Morris ynglŷn â'r cyfarfod i gynnig cyfranddaliadau cymunedol – mae mwy o fanylion i'w cael ar-lein ac yn y papurau lleol.
- Cafwyd cais i ofyn i MHC gynnal Grŵp Cyswllt er mwyn i'r gymuned wybod am ddau ddigwyddiad diweddar lle roedd gwrthdaro rhwng defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr.
- Trafodwyd dau gais cynllunio – agoriad drws a ffenestri mwy i garej yr Old Coach House, Plas Bennett, a chodi adeilad amaethyddol yng Nghwm Hyfryd (roedd gan y cynghorwyr eu pryderon ynglŷn â maint a lleoliad hwn).
- Bydd mygiau'r coroni'n cael eu cyflwyno i'r plant mewn gwasanaeth yn yr ysgol ar Fai 5ed, ac yna yn y Stafelloedd Coco am 16:00 i'r plant oed ysgol gynradd nad ydynt yn mynychu Ysgol Bryn Clwyd.
- Penderfynodd y Cyngor Cymuned roi basgedaid o fwyd i'r Parti Coroni yng Nghae Nant Mai 8fed.
- Mae cyflwr y ffordd yn ardal Groes Efa'n dal i fod yn destun pryder. Er bod y sir wedi bod yn ei thrwsio unwaith, roedd angen ei hail-wneud unwaith eto. Anogir y cyhoedd i gysylltu'n uniongyrchol â CSDd i gwyno am unrhyw dyllau mewn ffyrdd. Dyma'r linc: https://myaccount.denbighshire.gov.uk/en-gb/Pages/Form-Pages/Pothole.aspx.
- Gofynnwyd ers dechrau 2020 am reiliau newydd wrth y gylchfan ar gyfer yr Eisteddfod bryd hynny, ond dal i ddisgwyl mae'r Cyngor Cymuned iddyn nhw gael eu trwsio a'u peintio. Wedi gwneud cais drwy'r sianeli cywir, y gobaith oedd y byddai'r rheiny oedd wedi eu gorfodi i wneud gwasanaeth cymunedol yn gallu gwneud y gwaith.
- Ar wahân i egluro eu bod yn delio ag anheddau gwag rhestredig yn Sgwâr yr Eglwys yn uniongyrchol efo'r asiantau, doedd dim diweddariad gan Cyngor Sir Ddinbych.
- Penderfynwyd cynnal bore o gasglu sbwriel cymunedol ddiwedd Mai neu ddechrau Mehefin i gyd-fynd â phlannu blodau'r haf ar y gylchfan
- Cytunodd Arwyn i baratoi ei broffil ar gyfer y *Llais*.

Mae cofnodion mis Mawrth ar gael ar y wefan: www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk.